WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Er Budd y Cyhoedd – Archwiliadau o Gyfrifon 2004-05 i 2009-10

## Cyngor Cymuned Clydach

**Cyhoeddwyd:** Rhagfyr 2011

**Cyfeirnod y ddogfen:** 531A2011

# Statws yr adroddiad

**Statws yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd**

Paratowyd yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd yn unol ag Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw swyddog, aelod neu unrhyw berson arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

# Cynnwys

Cyhoeddir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd o dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiant yn y trefniadau llywodraethu a diffygion o ran rheoli ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Cymuned Clydach.


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 5 |
| Methodd y Clerc blaenorol â chyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli'r Cyngor yn ariannol | 6 |
| Methodd y Clerc blaenorol â chyflawni ei gyfrifoldebau statudol i gadw'r cofnodion cyfrifyddu yn briodol | 6 |
| Nid yw'r Clerc blaenorol yn gallu dangos bod yr holl incwm sy'n ddyledus i'r Cyngor wedi'i gasglu ac wedi'i fancio | 8 |
| Roedd dull gweinyddu taliadau'r Clerc blaenorol yn anghyson ac o ganlyniad gallai'r Cyngor wynebu cosbau a thaliadau ychwanegol | 9 |
| O ganlyniad i weinyddiaeth wael y Clerc blaenorol mewn perthynas â threfniadau'r gyflogres, gwnaed gordaliadau a gwallau eraill a gallai'r Cyngor wynebu cosbau ariannol | 10 |
| O ganlyniad i fethiant y Clerc blaenorol i gadw cofnodion TAW priodol, mae'r Cyngor wedi gorhawlio hyd at £1,465 o TAW | 12 |
| Methodd y Clerc blaenorol â chydymffurfio â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i baratoi datganiadau cyfrifyddu blynyddol a chydweithredu â'r archwilydd allanol | 12 |
| Methodd y Cyngor â chyflawni ei gyfrifoldebau i roi trefniadau llywodraethu a goruchwylio priodol ar waith i atal arian cyhoeddus rhag cael ei ddefnyddio mewn ffordd amhriodol neu wastraffus | 13 |
| Cyfrannodd dibyniaeth ar ymddiriedaeth a diffyg trefniadau goruchwylio gan aelodau at fethiannau rheoli ariannol | 13 |
| Mae'r Cyngor wedi methu yn ei ddyletswydd statudol i sicrhau bod trefniadau archwilio mewnol digonol ac effeithiol ar waith | 14 |
| Mae'r Cyngor wedi methu yn ei ddyletswydd statudol i gadw cofnodion priodol o'i drafodion a'i benderfyniadau | 15 |

| | |
|---|---|
| O ganlyniad i drefniadau llywodraethu a gweinyddu gwael yn y Cyngor, mae'r Cyngor wedi mynd i wariant diangen gwerth cyfanswm o £14,676 y gellid bod wedi'i osgoi | 15 |
| Camau a gymerwyd eisoes gan y Cyngor | 17 |
| Argymhellion | 17 |
| Y camau nesaf | 18 |
| Cydnabyddiaeth | 18 |

# Cyflwyniad

**1.** Cyhoeddir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd o dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf). Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau yn y trefniadau llywodraethu a diffygion o ran rheoli ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Cymuned Clydach (y Cyngor). Mae'r materion hyn wedi cael sylw yn y wasg leol ac mae pobl leol wedi cynnig sylwadau arnynt. Credaf ei bod yn bwysig bod y cyhoedd yn gwbl ymwybodol o'r digwyddiadau o fewn y Cyngor. Rwyf hefyd o'r farn ei bod yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos y camau pwysig a gymerwyd eisoes i wella trefniadau ac i sicrhau y caiff y risg y caiff methiannau llywodraethu o'r fath eu hailadrodd ei lleihau gymaint â phosibl. Mae gwersi i'w dysgu, nid yn unig gan y Cyngor, ond gan bob cyngor cymuned yng Nghymru.

**2.** Mae cymuned Clydach yng Nghwm Tawe. Mae gan y Cyngor 16 o aelodau etholedig ac mae'n gwasanaethu poblogaeth o tua 7,000 o bobl. Mae'r Cyngor yn gwario tua £50,000 bob blwyddyn ar wasanaethau lleol. Mae'n ariannu'r gwariant hwn drwy braesept o tua £44,000 gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe wedi'i ategu gan incwm a geir drwy osod y neuadd gymuned ar brydles. Daw cyllid y Cyngor o arian cyhoeddus ac etholir ei aelodau gan drigolion lleol. Felly, mae'r Cyngor yn atebol i etholwyr lleol Clydach.

**3.** Mae cynghorau cymuned fel Clydach, yn rhinwedd eu natur leol a'u maint bach iawn, yn dibynnu fel arfer ar un swyddog allweddol, sef y Clerc, i reoli eu materion gweinyddol. Yn amlach na pheidio, caiff y Clerc hefyd ei benodi fel Swyddog Ariannol Cyfrifol. Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor o ddydd i ddydd. Yn arbennig, mae hyn yn cynnwys derbyn a chofnodi incwm, paratoi taliadau siec i'w llofnodi gan aelodau, cadw'r cofnodion cyfrifyddu a pharatoi'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol. Fodd bynnag, yn ôl y gyfraith (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (y Rheoliadau)), y Cyngor (hynny yw, yr aelodau) sy'n gyfrifol am warchod cronfeydd y Cyngor, yn cynnwys sicrhau bod ganddo drefniadau rheoli ariannol effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn cynnwys pethau fel sefydlu system rheolaeth fewnol briodol, yn cynnwys trefniadau archwilio mewnol, a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol cyn eu cyflwyno i'w harchwilio gan yr archwilydd allanol.

**4.** Penodwyd Mr Robert King yn Glerc ac yn Swyddog Ariannol Cyfrifol i'r Cyngor ym mis Awst 1999. Yn ei gyflwyniad a wnaed mewn ymateb i ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd gennyf ym mis Hydref 2011, noda Mr King na chafodd ei dalu fel Swyddog Ariannol Atebol y Cyngor, dim ond fel y Clerc. Noda Mr King hefyd fod disgwyl iddo lofnodi ei enw fel Swyddog Ariannol Atebol y Cyngor, a'i fod yn gwneud hynny.

**5.** Yn dilyn penderfyniad y Comisiynydd Gwybodaeth fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth mewn ymateb i gais gan breswylydd lleol, ymddiswyddodd Mr King ym mis Mehefin 2010. Er i'r Cyngor dderbyn ei ymddiswyddiad, arhosodd Mr King yn ei swydd tan fis Ebrill 2011 tra'n aros i Glerc newydd gael ei benodi.

**6.** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol benodi archwilydd allanol i'r Cyngor.

**7.** Yn dilyn ymddeoliad yr archwilydd penodedig blaenorol ym mis Mawrth 2010, fe'm penodwyd yn unol â hysbysiad penodi archwilydd y Cyngor, a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf. Gwneir y penodiad hwn fel cyd-benodiad gyda Mazars LLP ar gyfer y cyfnod o 2006-07 i 2009-10. Dechreuodd yr archwiliad statudol ar gyfer 2004-05 ddiwedd 2005 ac mae wedi cymryd cyfnod anarferol o amser i'w gwblhau. Yn rhannol, mae hyn o ganlyniad i fethiant y Clerc blaenorol i ymateb i geisiadau am wybodaeth gan yr archwilydd penodedig blaenorol. Rwyf wedi gwneud sylwadau pellach ar hyn ym mharagraffau 43 i 46. Fodd bynnag, mae hefyd yn amlwg i mi y gallai Swyddfa Archwilio Cymru fod wedi gwneud mwy i gwblhau'r archwiliad yn gynt, gan felly leihau effaith y materion a nodir isod ar y Cyngor. Ym mis Mehefin 2009, diwygiodd Swyddfa Archwilio Cymru ei phrotocol ar gyfer ymdrin â chynghorau cymuned anymatebol. Cafodd y protocol ei adolygu a'i ddiweddaru eto ym mis Hydref 2011.

# Methodd y Clerc blaenorol â chyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli'r Cyngor yn ariannol

## Methodd y Clerc blaenorol â chyflawni ei gyfrifoldebau statudol i gadw'r cofnodion cyfrifyddu yn briodol

**8.** O dan y Rheoliadau, rhaid i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol benderfynu ar y canlynol, ar ran y Cyngor, ar ôl ystyried arferion priodol:

- cofnodion cyfrifyddu, gan gynnwys ffurf y cyfrifon a'r cofnodion cyfrifyddu ategol;
- systemau rheoli cyfrifyddu.

**9.** Rhaid i'r cofnodion cyfrifyddu fod yn ddigon i ddangos trafodion y Cyngor a rhaid iddynt, ymhlith pethau eraill:

- fod yn ddigonol i sicrhau bod unrhyw ddatganiadau cyfrifyddu yn cydymffurfio â'r Rheoliadau;
- cynnwys cofnodion o ddydd i ddydd o bob swm o arian a gafwyd ac a wariwyd gan y Cyngor;
- cofnodi asedau a rhwymedigaethau'r Cyngor.

**10.** Rhaid i'r systemau rheoli cyfrifyddu, ymhlith pethau eraill, gynnwys y canlynol:

- mesurau i sicrhau y caiff trafodion ariannol y Cyngor eu cofnodi cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ac mor gywir ag sy'n rhesymol bosibl;
- mesurau i alluogi i anghywirdebau ac achosion o dwyll gael eu hatal a'u canfod;
- y gallu i ail-greu unrhyw gofnodion a gaiff eu colli.

**11.** Rhaid i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol hefyd sicrhau y cydymffurfir â'r safonau rheoli cyfrifyddu ac y caiff y cofnodion cyfrifyddu eu diweddaru'n rheolaidd a'u cadw'n unol ag arferion priodol.

**12.** Cofnod cyfrifyddu pwysicaf y Cyngor yw'r llyfr arian parod (llyfr derbynebau a thaliadau). Fodd bynnag, roedd y llyfr arian parod a gadwyd gan y Clerc blaenorol yn sylweddol anghyflawn. Nid yw'r llyfr arian parod yn cynnwys manylion y canlynol:

- incwm a dderbyniwyd;
- taliadau cyflog;
- taliadau banc.

**13.** Mae cysoniadau banc yn adnodd allweddol i gynghorau. Maent yn nodi'r arian sydd ar gael ar unrhyw adeg benodol. Maent hefyd yn dangos cyflawnrwydd a chywirdeb cofnodion y Cyngor. Fodd bynnag, ni wnaeth y Clerc blaenorol baratoi cysoniad banc yn ystod unrhyw un o'r blynyddoedd a gwmpesir gan yr archwiliad hwn.

**14.** Yn ystod yr archwiliad, nodais nad oedd y taliadau siec a gofnodwyd yn y llyfr arian parod wedi'u cofnodi mewn trefn. Er mwyn rheoli cyllid y Cyngor yn briodol, mae'n hanfodol bod unrhyw sieciau a gaiff eu hysgrifennu a phob trafodyn arall yn cael eu cofnodi yn y llyfr arian parod adeg eu gwneud.

**15.** Rhoddwyd dyddiadau ar y sieciau ar hap. O dan amgylchiadau arferol, byddai dilyniant y sieciau mewn trefn dyddiad caeth. Fodd bynnag, roedd y Clerc blaenorol yn aml yn cofnodi sieciau allan o ddilyniant a threfn dyddiad. Dangosir hyn yn Nhabl 1 isod.

### Tabl 1: Dilyniannau siec

Mae sieciau'r Cyngor wedi'u dyddio allan o drefn.

| Rhif y siec | Dyddiad yn ôl bonyn y siec | Dyddiad a gofnodwyd yn y llyfr arian parod |
|---|---|---|
| 101481 | 17 Medi 2008 | Medi 2008 |
| 101482 | 17 Medi 2008 | Medi 2008 |
| 101483 | 22 Medi 2008 | Medi 2008 |
| 101484 | 6 Ionawr 2009 | Ionawr 2009 |
| 101485 | 28 Hydref 2008 | Hydref 2008 |
| 101486 | 25 Hydref 2008 | Hydref 2008 |
| 101487 | 25 Hydref 2008 | Hydref 2008 |
| 101488 | 25 Hydref 2008 | Hydref 2008 |
| 101489 | Wedi'i ganslo | Dd/G |
| 101490 | Wedi'i ganslo | Dd/G |

| | | |
|---|---|---|
| 101491 | 28 Hydref 2008 | Hydref 2008 |
| 101492 | 17 Hydref 2008 | Hydref 2008 |
| 101493 | 28 Hydref 2008 | Hydref 2008 |
| 101494 | 17 Hydref 2008 | Hydref 2008 |

*Ffynhonnell: Llyfrau sieciau a llyfr arian parod*

**16.** Mae'r defnydd hwn o sieciau ar hap yn rhan o batrwm ehangach o drefniadau gwael ar gyfer cadw cofnodion a methiant i gymhwyso rheolaethau mewnol, fel y nodir yng ngweddill yr adroddiad hwn.

## Nid yw'r Clerc blaenorol yn gallu dangos bod yr holl incwm sy'n ddyledus i'r Cyngor wedi'i gasglu ac wedi'i fancio

**17.** Daw incwm y Cyngor o dair prif ffynhonnell:

- Y praesept blynyddol ar Ddinas a Sir Abertawe. Fe'i telir mewn gwirionedd gan drethdalwyr Cyngor Clydach ar ffurf treth gyngor uwch.
- Llog ar adneuon a buddsoddiadau banc.
- Taliadau a godir am ddefnyddio'r neuadd gymunedol.

**18.** Ymddengys fod gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer cofnodi a bancio arian am ddefnyddio'r neuadd fel a ganlyn. Caiff archebion ar gyfer y neuadd eu cofnodi mewn dyddiaduron blynyddol a gedwir gan y Clerc. Mae'r Clerc hefyd yn cadw llyfr derbynebau copi carbon er mwyn darparu tystiolaeth bod ffioedd sy'n ddyledus i'r Cyngor wedi'u talu. Pan gaiff arian y neuadd ei fancio, mae'r Clerc yn cofnodi manylion y talai ar slipiau adnau'r banc.

**19.** Mae Mr King wedi datgan mai dim ond drwy siec y talwyd am ddefnyddio'r neuadd a bod manylion pob taliad unigol wedi'u cofnodi yn llyfr talu i mewn y banc. Fodd bynnag, cadarnhaodd fy adolygiad o'r dyddiaduron, y llyfrau derbynebau a slipiau adnau'r banc ar gyfer 2004-05 a 2005-06 nad ydynt yn darparu cofnod dibynadwy o incwm a oedd yn ddyledus i'r Cyngor ac a dderbyniwyd gan y Cyngor:

- Mae'r llyfrau derbynebau yn cynnwys derbynebau wedi'u marcio fel rhai wedi'u canslo ond heb unrhyw esboniad pellach. Mewn un achos, banciwyd arian y neuadd er bod y dderbynneb wedi'i marcio fel derbynneb wedi'i chanslo.
- Diwygiwyd rhai o gopïau'r Cyngor o dderbynebau ar ôl eu cyhoeddi er mwyn cofnodi swm is o arian fel y swm a dderbyniwyd.
- Mae'n anodd cysoni'r derbynebau a'r cofnodion bancio o ganlyniad i anghysondeb wrth gofnodi manylion trafodion ar y dderbynneb ac ar slip adnau'r banc.

- Nid oes patrwm rheolaidd o adneuon, gydag enghreifftiau o arian na chafodd ei fancio, yn ôl pob tebyg, am rhwng pump a chwech wythnos.
- Mewn rhai achosion, banciwyd arian er nad oedd unrhyw dderbynebau ategol.

**20.** Mae'r dyddiadur prydlesu ar gyfer 2009 a 2010 yn dangos bod y neuadd yn cael ei defnyddio gan nifer o grwpiau ac unigolion ar sail wythnosol drwy gydol y cyfnod hwn. Fodd bynnag, dim ond saith derbynneb sydd yn y llyfr derbynebau ar gyfer 2009-10. Mae'r derbynebau hyn yn cwmpasu'r cyfnod o 14 Ebrill i 19 Ebrill 2009. Ni chofnodwyd unrhyw dderbynebau ar gyfer gweddill y flwyddyn. Nid yw llyfr adnau'r banc yn cofnodi unrhyw adneuon rhwng 23 Ebrill 2009 a 18 Awst 2009.

**21.** Er y gofynnwyd yn benodol iddo wneud hynny, ni ddarparodd y Clerc blaenorol ddyddiaduron prydlesu i'r archwilwyr ar gyfer 2007 a 2008. Dim ond 27 o dderbynebau a gofnodir yn y llyfr derbynebau ar gyfer 2008-09 ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mae llyfr adnau'r banc ar gyfer 2008-09 yn dangos bod y Cyngor wedi derbyn o leiaf 32 o daliadau.

**22.** Mae'r materion hyn yn dangos bod cofnodion prydlesu neuadd y Cyngor yn annigonol ac felly mae'n amhosibl penderfynu pa un a gafodd yr holl incwm a oedd yn ddyledus i'r Cyngor ei dderbyn a'i fancio. Dylai fod gan y Cyngor system sy'n ei gwneud yn syml cysoni'r arian a gafodd ei fancio i'r dyddiadur prydlesu drwy'r llyfr derbynebau ac i'r gwrthwyneb.

## Roedd dull gweinyddu taliadau'r Clerc blaenorol yn anghyson ac o ganlyniad gallai'r Cyngor wynebu cosbau a thaliadau ychwanegol

**23.** Bob mis, roedd y Clerc blaenorol yn cyflwyno rhestr o 'gyfrifon i'w talu' i'r Cyngor. Caiff y rhain eu cofnodi yng nghofnodion y Cyngor. Ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol, gweithdrefn arferol y Cyngor yw cymeradwyo taliadau cyn i sieciau gael eu hysgrifennu a'u llofnodi. Am y rhesymau a nodir isod, byddai'n arfer da i sieciau gael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod lle caiff y taliadau eu cymeradwyo.

**24.** Nodais yn ystod yr archwiliad fod taliadau yn cael eu gwneud yn hwyr yn rheolaidd. Roedd taliadau yn cael eu gwneud hyd at ddeufis ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r taliad. O ganlyniad i'r arferion hyn, roedd y Cyngor yn derbyn hysbysiadau atgoffa rheolaidd ac ar sawl achlysur, cafodd hysbysiadau terfynol a'i fygwth ag achosion llys. O ganlyniad i dalu biliau ffôn yn hwyr, datgysylltwyd y gwasanaeth i'r neuadd gymunedol a bu'n rhaid talu tâl dilynol y gellid bod wedi'i osgoi'n llwyr am ailgysylltu'r gwasanaeth.

**25.** Yn ogystal â'r taliadau hwyr hyn, nodais mewn rhai achosion bod eitemau wedi'u cyflwyno i'r Cyngor a bod taliadau wedi'u cymeradwyo ond nad oedd unrhyw gofnod o'r taliad yn cael ei wneud wedi hynny. Mae'r diffyg rheolaeth hwn dros daliadau yn golygu y gallai'r Cyngor fod yn agored i golledion o ganlyniad i daliadau dyblyg.

**26.** Er enghraifft, mae patrwm y taliadau o ran ardrethi annomestig sy'n daladwy ar y neuadd gymunedol yn ansicr. Roedd y taliadau hyn naill ai:

- wedi'u cyflwyno i'r Cyngor ac wedi'u cymeradwyo a'u talu;
- wedi'u cyflwyno i'r Cyngor, wedi'u cymeradwyo ond heb eu talu; neu
- heb eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo ond wedi'u talu.

## O ganlyniad i weinyddiaeth wael y Clerc blaenorol mewn perthynas â threfniadau'r gyflogres, gwnaed gordaliadau a gwallau eraill a gallai'r Cyngor wynebu cosbau ariannol

**27.** Mae'r Cyngor yn cyflogi dau aelod o staff, sef y Clerc a gofalwr y neuadd. Telir y Clerc bob mis a thelir y gofalwr bob wythnos. Fodd bynnag, nododd yr archwiliad fod y Cyngor yn talu ei gyflogau ar gyfnodau afreolaidd.

**28.** Yn ystod y cyfnod o 2004-05 i 2009-10, roedd hawl gan y Clerc blaenorol i 72 o daliadau cyflog misol. Yn ystod yr archwiliad, nodais fod y Clerc blaenorol wedi codi 73 o daliadau cyflog mewn gwirionedd. Yn 2005-06, cododd y Clerc blaenorol gyflog 13 mis gan arwain at ordaliad cyflog net o £453.

**29.** O'r 72 o daliadau cyflog a oedd yn ddyledus i'r Clerc blaenorol, cododd y Clerc blaenorol ei gyflog misol cyn y dyddiad dyledus ar 69 o achlysuron. Ar 32 o achlysuron, cododd y Clerc blaenorol ei gyflog fwy na mis cyn y dyddiad dyledus. Yn yr achos gwaethaf, codwyd y cyflog bron i bedwar mis cyn y dyddiad dyledus. Codwyd rhai taliadau cyflog olynol namyn diwrnodau ar wahân.

**30.** Fel cyflogwr, rhaid i'r Cyngor ddidynnu Treth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYGau) cyflogeion o gyflog cyflogeion ac anfon y symiau a ddidynnir i Gyllid a Thollau EM bob mis neu bob chwarter ynghyd â chyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr. Gelwir y system hon yn Talu Wrth Ennill (TWE). Rhaid talu didyniadau TWE i Gyllid a Thollau EM erbyn y pedwerydd diwrnod ar bymtheg o'r mis canlynol.

**31.** Fodd bynnag, er bod y Clerc blaenorol yn talu ei gyflog ei hun yn gynnar, nid oedd bob amser yn talu'r didyniadau TWE gofynnol o fewn cyfnod rhesymol. Er enghraifft:

- ni thalwyd didyniadau TWE ar gyfer mis Medi, Hydref a Thachwedd 2008 tan fis Ionawr 2009;
- ni thalwyd didyniadau TWE ar gyfer mis Mai 2009 tan fis Gorffennaf 2009;
- ni thalwyd didyniadau TWE ar gyfer mis Awst, Medi, Hydref a Thachwedd 2009 tan fis Ionawr 2010.

**32.** Mae'r arfer hwn yn golygu bod perygl y gallai'r Cyngor wynebu cosbau a thaliadau llog.

**33.** Fel rhan o'r archwiliad, adolygais gywirdeb cyfrifiadau treth a chyfraniadau YG ar gyfer blynyddoedd 2004-05 i 2009-10 i ganfod a oeddent yn rhesymol. Nododd fy adolygiad gyfanswm tangyfrifiadau treth a chyfraniadau YG (cyflogeion a chyflogwr) posibl o £292 ar gyfer y chwe blynedd hyn.

**Tabl 2**

| | £ | Sylw |
|---|---|---|
| Clerc | 239.21 | Didyniadau treth a chyfraniadau YG cyflogeion gormodol |
| Gofalwr | (307.38) | Tangyfrifiad treth a chyfraniadau YG cyflogeion |
| Cyfraniadau YG y cyflogwr | (224.05) | Tangyfrifiad cyfraniadau YG y cyflogwr |
| **Cyfanswm** | **(292.22)** | **Tangyfrifiad treth a chyfraniadau YG net** |

**34.** Noda taflenni didyniadau'r Cyngor ei hun y dylai'r Cyngor fod wedi cyfrifo cyfanswm o £29,045 ar gyfer treth a chyfraniadau YG. Noda fy nghyfrifiadau i mai £29,337 oedd y cyfanswm cywir.

**35.** Ni fu'n bosibl cyfateb cyfrifiadau treth y gyflogres i'r taliadau gwirioneddol a wnaed i Gyllid a Thollau EM. Y taliadau gwirioneddol a wnaed i Gyllid a Thollau EM oedd £28,646. Mae hyn yn cyfateb i dandaliad o rhwng £399 a £691 yn seiliedig ar y cyfrifiadau uchod.

**36.** Dengys gwybodaeth a ddarparwyd gan y Cyngor mewn perthynas â chyflog y Clerc blaenorol ar gyfer 2010-11 fod y Clerc blaenorol wedi parhau i godi cyflog cyn y dyddiad yr oedd hawl ganddo i'w gael. At hynny, yn ystod y cyfnod o 1 Medi 2010 i fis Ionawr 2011, mae'r Clerc blaenorol wedi codi £5,184.42 o gyflog heb ddidynnu treth na chyfraniadau YG. Mae hyn yn golygu bod y Clerc blaenorol wedi cael gordaliad. Amcangyfrifaf y dylai'r Cyngor fod wedi didynnu £1,607 o dreth a chyfraniadau YG. Amcangyfrifaf y dylid bod hefyd wedi cyfrifo £663 o gyfraniadau YG y cyflogwr.

**37.** Dylai'r Cyngor nawr adolygu'n fanwl y cyfrifiadau treth a chyfraniadau YG a wnaed gan y Clerc blaenorol a chytuno ar unrhyw dandaliad gyda Chyllid a Thollau EM.

**38.** Ni chyflwynir costau'r gyflogres i'r Cyngor i'w cymeradwyo. Pe bai'r Cyngor wedi gweld y taliadau a wnaed, byddai wedi bod yn bosibl nodi afreoleidd-dra'r taliadau a nodwyd uchod.

## O ganlyniad i fethiant y Clerc blaenorol i gadw cofnodion TAW priodol, mae'r Cyngor wedi gorhawlio hyd at £1,465 o TAW

**39.** Fel corff a gwmpesir gan Adran 33 o Ddeddf Treth Ar Werth 1994, gall y Cyngor adennill TAW a delir ar bryniannau. Er mwyn gwneud hynny, dylai'r Cyngor gael derbynebau ac anfonebau TAW priodol yn nodi manylion perthnasol y TAW a dalwyd a rhif cofrestru TAW y cyflenwr.

**40.** Mae'r Clerc blaenorol wedi nodi, ar ddau achlysur, fod Cyllid a Thollau EM wedi archwilio ffurfleni a chofnodion TAW y Cyngor ac na nodwyd unrhyw wallau. Er gwaethaf hyn, nododd fy archwiliad nifer o wallau gwahanol mewn perthynas â TAW.

**41.** Mewn sawl achos, hawliwyd TAW ar bryniannau nas ategwyd gan dderbynebau ac anfonebau TAW priodol. Ar un achlysur, adenillwyd TAW hefyd yn seiliedig ar anfoneb sy'n datgan 'ni chodwyd TAW'.

**42.** Wrth gofnodi TAW ar y pryniannau hyn, mae'r Clerc blaenorol wedi cyfrifo'r elfen TAW yn anghywir yn systemataidd. Mewn rhai achosion, cyfrifwyd TAW ar bryniannau na thelir TAW arnynt. Mewn achosion eraill, lle telir TAW ar y cyflenwadau, mae'r TAW a gyfrifwyd yn uwch na'r TAW y byddid wedi'i chodi.

**43.** Mae'r cofnodion a gadwyd gan y Clerc blaenorol cynddrwg fel na allaf wneud penderfyniad terfynol ar lefel y TAW a orhawliwyd. Fodd bynnag, dengys fy nadansoddiad, o ganlyniad i'r gwallau hyn, fod y Cyngor wedi gorhawlio rhwng £198 a £1,465 o TAW rhwng 2004-05 a 2009-10. Dylai'r Cyngor nawr adolygu'n fanwl yr hawliadau TAW a wnaed ar gyfer y cyfnod a chytuno ar swm unrhyw TAW a orhawliwyd gyda Chyllid a Thollau EM.

## Methodd y Clerc blaenorol â chydymffurfio â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i baratoi datganiadau cyfrifyddu blynyddol a chydweithredu â'r archwilydd allanol

**44.** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor lunio ei gyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth a sicrhau y caiff ei gyfrifon eu harchwilio gan archwilydd a benodir gan yr Archwilydd Cyffredinol. Caiff datganiadau cyfrifyddu'r Cyngor eu paratoi ar ffurf ffurflen flynyddol a ddarperir gan yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r datganiadau cyfrifyddu ar y ffurflen flynyddol yn darparu cofnod syml o dderbyniadau a thaliadau. Dylai'r cofnodion ar gyfer y datganiadau cyfrifyddu fod yn hawdd eu tynnu o lyfr arian parod wedi'i gadw'n dda.

**45.** Un o gyfrifoldebau allweddol Clerc y Cyngor yw paratoi'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol ar ran y Cyngor.

**46.** Methodd y Clerc blaenorol â pharatoi unrhyw ddatganiadau cyfrifyddu ar gyfer y cyfnod o 2004-05 i 2009-10. Mae natur wael y cofnodion a gadwyd gan y Clerc blaenorol, fel yr amlinellir uchod, yn golygu nad yw'n bosibl paratoi'r datganiadau

cyfrifyddu blaenorol o'r llyfr arian parod. Ym mis Gorffennaf 2010, penododd y Cyngor gyfrifydd i baratoi'r cyfrifon o ddogfennau gwreiddiol.

**47.** O fis Medi 2005 tan fis Mai 2010, methodd y Clerc blaenorol yn rheolaidd ag ymateb i geisiadau am y datganiadau cyfrifyddu a cheisiadau am wybodaeth a wnaed gan dîm yr archwiliad.

# Methodd y Cyngor â chyflawni ei gyfrifoldebau i roi trefniadau llywodraethu a goruchwylio priodol ar waith i atal arian cyhoeddus rhag cael ei ddefnyddio mewn ffordd amhriodol neu wastraffus

## Cyfrannodd dibyniaeth ar ymddiriedaeth a diffyg trefniadau goruchwylio gan aelodau at fethiannau rheoli ariannol

**48.** Mae'r Rheoliadau yn dynodi'n glir bod y Cyngor yn gyfrifol am sicrhau a rhoi system rheolaeth fewnol gadarn ar waith sy'n cynnwys trefniadau rheoli ariannol digonol ac effeithiol (Rheoliad 4). Mae'r system rheolaeth fewnol hon yn cynnwys archwilio mewnol digonol ac effeithiol (Rheoliad 6).

**49.** Mae'r materion a nodwyd uchod yn dangos bod y trefniadau rheoli ariannol a roddwyd ar waith gan y Cyngor wedi bod yn wan drwy gydol y cyfnod sy'n rhan o'r adolygiad. Ymhlith y meysydd penodol o bryder mae:

- diffyg adroddiadau ariannol rheolaidd i'r Cyngor;
- aelodau yn llofnodi sieciau gwag hy, sieciau nad ydynt yn cynnwys manylion y talai a'r swm ac ati;
- methiant i sicrhau bod y datganiadau cyfrifyddu wedi'u cyflwyno'n brydlon i'w harchwilio.

### Adroddiadau ariannol

**50.** Mae cofnodion y Cyngor yn cofnodi bod yr unig wybodaeth ariannol gadarn a gyflwynir i'r Cyngor yn cynnwys cyllideb a geir adeg pennu'r praesept blynyddol a rhestr o daliadau i'w cymeradwyo a gyflwynir ymhob un o gyfarfodydd y Cyngor. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, nid yw'r rhestrau hyn yn gyflawn.

**51.** Arfer da, a fabwysiadwyd gan lawer o gynghorau cymuned eraill o faint tebyg i Glydach, yw i'r Cyngor dderbyn adroddiadau rheolaidd, h.y. misol neu chwarterol, o incwm a gwariant o gymharu â'r gyllideb flynyddol. Pe bai'r Cyngor wedi gofyn i'r Clerc blaenorol am yr adroddiadau hyn yn ystod y cyfnod sy'n rhan o'r archwiliad, mae'n bosibl y byddai'r diffygion a gafwyd yng nghofnodion ariannol y Cyngor wedi cael eu nodi'n gynharach.

### Sieciau wedi'u llofnodi ymlaen llaw

**52.** Yn ystod yr archwiliad, nododd tîm yr archwiliad fod aelodau wedi llofnodi cyfanswm o chwe siec o ddau lyfr sieciau ymlaen llaw. Mae'r rhain yn sieciau sydd wedi'u llofnodi ond nad ydynt yn cynnwys unrhyw fanylion am y talai ac ati. Mae'r Clerc blaenorol wedi cadarnhau i dîm yr archwiliad fod aelodau wedi mabwysiadu'r arfer o lofnodi sieciau heb fod y manylion wedi'u cwblhau neu heb weld dogfennaeth ategol ar gyfer y taliad. Yn lle hynny, ac yn gwbl amhriodol, mae'r rheini sy'n llofnodi'r sieciau wedi dibynnu ar y Clerc i weithredu'n briodol.

**53.** Gallai'r arfer hwn amlygu'r Cyngor i golledion o ganlyniad i dwyll. At hynny, pe bai dogfennau ategol wedi cael eu hadolygu cyn gwneud taliadau, mae'n bosibl y byddai'r Cyngor wedi nodi drosto'i hun fod taliadau yn cael eu codi am dalu'n hwyr. Byddai hefyd wedi nodi'r ffaith fod cyflog y Clerc blaenorol wedi'i ordalu a bod cyflog y Clerc blaenorol yn aml yn cael ei dalu'n gynnar.

### Ffurflen flynyddol a datganiadau cyfrifyddu

**54.** Nid yw cofnodion y Cyngor yn cofnodi unrhyw drafodaeth o gwbl am y cyfrifon blynyddol. Drwy'r diffyg ffocws hwn ar ei gyfrifoldebau statudol, caniataodd y Cyngor i'r Clerc blaenorol osgoi paratoi'r ffurflenni blynyddol ar gyfer y cyfnod o 2004-05 i 2009-10.

## Mae'r Cyngor wedi methu yn ei ddyletswydd statudol i sicrhau bod trefniadau archwilio mewnol digonol ac effeithiol ar waith

**55.** Mae Rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol o ran ei gofnodion cyfrifyddu a'i system o reolaeth fewnol. Diben trefniadau archwilio mewnol yw ystyried gweithgareddau'r Cyngor o ddydd i ddydd a rhoi sicrwydd mewn perthynas â hwy.

**56.** Ar gyfer rhan sylweddol o'r cyfnod sy'n rhan o'r archwiliad, nid oedd gan y Cyngor unrhyw drefniadau archwilio mewnol ar waith. Penododd y Cyngor archwilydd mewnol ar un adeg ond ymddengys na wnaed unrhyw waith o bwys.

**57.** Byddai gwaith archwilio mewnol digonol ac effeithiol bron yn sicr wedi nodi'r materion a gofnodir yma ar gam cynnar.

## Mae'r Cyngor wedi methu yn ei ddyletswydd statudol i gadw cofnodion priodol o'i drafodion a'i benderfyniadau

**58.** Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gadw cofnodion o'i drafodion. Rhaid i'r cofnodion hyn gael eu cofnodi mewn llyfr at y diben penodol hwnnw. Rhaid i'r cofnodion gael eu llofnodi gan yr unigolyn sy'n cadeirio'r cyfarfod lle y caiff y cofnodion eu cymeradwyo.

**59.** Mae'r Cyngor yn cadw ei gofnodion mewn llyfr cofnodion â thudalennau rhydd. Yn ystod yr archwiliad, nodais nad yw'r cofnodion rhydd wedi'u rhifo mewn trefn, nad ydynt wedi'u blaenlythrennu na'u llofnodi. Mae llyfrau cofnodion â thudalennau rhydd yn gyfreithlon ar yr amod bod rhifau ar bob tudalen a bod y tudalennau wedi'u blaenlythrennu gan y person sy'n llofnodi'r cofnodion adeg llofnodi. Fodd bynnag, nid yw cofnodion na chânt eu llunio neu eu llofnodi yn unol â'r gyfraith, er enghraifft, yn dderbyniol fel tystiolaeth mewn llys.

# O ganlyniad i drefniadau llywodraethu a gweinyddu gwael yn y Cyngor, mae'r Cyngor wedi mynd i wariant diangen gwerth cyfanswm o £14,676 y gellid bod wedi'i osgoi

**60.** Yn ystod yr archwiliad, nodais fod y Cyngor wedi gwario symiau sylweddol a oedd yn gwbl ddiangen ac y gellid bod wedi'u hosgoi. Roedd y gwariant hwn yn deillio o daliadau banc a llog, taliadau am dalu'n hwyr gan gyflenwyr, taliadau cyflog gormodol a thaliadau cadw llyfrau ychwanegol.

**61.** Drwy gydol y rhan fwyaf o'r cyfnod o 1 Ebrill 2004 hyd at 31 Mawrth 2010, mae'r Cyngor wedi cadw cyfrif adnau cynilo a/neu fond cynilo â balans o dros £10,000.

**62.** Er gwaethaf hyn, mae cyfrif cyfredol y Cyngor yn rheolaidd wedi mynd i orddrafft. O ganlyniad, codwyd taliadau banc o fwy na £1,100 ar y Cyngor. Gellid bod wedi osgoi'r taliadau hyn drwy drosglwyddo arian o'r cyfrif cynilo. Nodir y taliadau ychwanegol hyn yn Nhabl 3 isod.

**63.** Mae'r Cyngor wedi methu â thalu ei filiau'n brydlon yn rheolaidd. Mewn rhai achosion, dim ond pan gafodd y Clerc ei hysbysu y byddai oedi pellach yn arwain at achos llys y talwyd y biliau. Talwyd biliau cyfleustodau yn hwyr yn rheolaidd ac o ganlyniad, cymhwysodd cyflenwyr daliadau am dalu'n hwyr ac mewn un achos, daliad ailgysylltu ychwanegol a ddaeth i gyfanswm o dros £100. Nodir y taliadau ychwanegol hyn yn Nhabl 3 isod.

**64.** Er mwyn paratoi'r datganiadau cyfrifyddu ar gyfer yr archwiliad, bu'n rhaid i'r Cyngor gyflogi cyfrifydd allanol am gyfanswm cost o £6,000 a TAW. Paratôdd y cyfrifydd gofnodion a chysoniadau banc er mwyn paratoi'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol. Gellid bod wedi osgoi'r gwariant hwn pe bai'r llyfr arian parod wedi cael ei gadw'n briodol a'i ddiweddaru'n rheolaidd.

**65.** O ganlyniad i'r ffaith na lwyddwyd i oruchwylio a chymeradwyo'r gyflogres yn ddigonol, gordalwyd swm o £453 o ran cyflog y Clerc blaenorol yn 2005-06.

**Tabl 3: Costau y gellid bod wedi'u hosgoi yr aed iddynt gan y Cyngor**

| Blwyddyn ariannol | Taliadau banc £ | Ffioedd talu'n hwyr am gyfleustodau £ | Ffioedd cyfrifyddu £ | Gordaliad cyflog £ |
|---|---|---|---|---|
| 2004-05 | 2 | | 1,000 | |
| 2005-06 | 207 | | 1,000 | 453 |
| 2006-07 | 178 | 35 | 1,000 | |
| 2007-08 | 244 | 60 | 1,000 | |
| 2008-09 | 243 | 10 | 1,000 | |
| 2009-10 | 244 | | 1,000 | |
| **Cyfanswm** | **1,118** | **105** | **6,000*** | **453** |

** Talwyd yn 2010-11*

*Ffynhonnell: Cyfriflenni banc a chyfriflenni cyfleustodau*

**66.** Mae'r ffioedd a godir ar gyfer yr archwiliad allanol statudol yn seiliedig ar raddfa ffioedd a gyhoeddir gan yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r ffioedd hyn yn seiliedig ar incwm a gwariant y Cyngor. Mae'r raddfa ffioedd yn tybio bod y Cyngor yn cyflwyno ei ffurflen flynyddol yn brydlon ac yn unol â gofynion yr archwilydd.

**67.** Pe bai'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r gofynion archwilio allanol, byddai ei ffioedd archwilio ar gyfer y cyfnod o 2004-05 i 2009-10 wedi dod i gyfanswm o £2,370.

**68.** Fodd bynnag, lle y bo angen i archwilydd allanol ymgymryd â gwaith ychwanegol er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol, mae'n ofynnol i'r archwilydd godi ffioedd ychwanegol fel y bo'n briodol.

**69.** Mae'r materion a nodwyd uchod wedi golygu y bu angen cryn dipyn o waith archwilio ychwanegol. Amcangyfrifaf fod y ffioedd archwilio ychwanegol, gan gynnwys ystyried cyflwyno adroddiad er budd y cyhoedd, yn dod i gyfanswm o £7,000. Caiff hyn ei ddiweddaru pan fydd yr archwiliad wedi'i gwblhau.

**70.** Gwerth cyfun y gwariant y gellid bod wedi'i osgoi yw £14,676.

## Camau a gymerwyd eisoes gan y Cyngor

**71.** Mae'n bwysig bod y Cyngor yn dysgu o'r digwyddiadau hyn. Deallaf fod y Cyngor eisoes wedi cymryd rhai camau, gan gynnwys:

- adolygu'r holl daliadau cyflog a wnaed i'r Clerc blaenorol yn 2010-11 er mwyn nodi unrhyw anghysondebau eraill;
- camau i adennill yr arian a ordalwyd i Mr King;
- sicrhau mai dim ond yn ystod cyfarfodydd y Cyngor y bydd cynghorwyr yn llofnodi sieciau a dim ond pan fydd dogfennaeth ddigonol ar gael i ategu'r taliad;
- creu llyfr arian parod gyda chysoniadau banc yn cael eu cwblhau a'u dogfennu bob mis;
- cyflwyno system newydd i gofnodi achosion o brydlesu'r neuadd ac i reoli derbynebau ac arian a gaiff ei fancio;
- cyflwyno'r cyfrifon blynyddol i'r Cyngor llawn cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd y flwyddyn.

## Argymhellion

**72.** Mae fy argymhellion i'r Cyngor fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor adolygu natur ac ansawdd y cofnodion cyfrifyddu a sicrhau eu bod yn addas at y diben, a'u bod yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ac yn gyflawn. |
| A2 | Dylai'r Cyngor adolygu ei drefniadau ar gyfer prydlesu'r neuadd a sicrhau bod yr holl arian a geir yn cael ei gofnodi'n gywir a'i fancio. |
| A3 | Dylai'r Cyngor roi trefniadau ar waith i sicrhau y caiff pob cyfrif sy'n ddyledus i'w dalu ei dalu'n brydlon ar ôl ei gymeradwyo gan y Cyngor. |
| A4 | Dylai'r Cyngor gadarnhau gyda Chyllid a Thollau EM bod y didyniadau treth a chyfraniadau YG wedi'u cyfrifo'n gywir a bod taliadau i Gyllid a Thollau EM yn gywir ac yn gyfredol. |
| A5 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod pob taliad cyflog yn cael ei dalu'n rheolaidd ac na wneir unrhyw daliadau cyn bod gan gyflogeion yr hawl i'r taliad hwnnw. |
| A6 | Dylai'r Cyngor adolygu ei hawliadau am ad-daliadau TAW a chytuno gyda Chyllid a Thollau EM ar swm unrhyw orhawliad. |

| | |
|---|---|
| A7 | Dylai'r Cyngor roi trefniadau ar waith i sicrhau y caiff y datganiadau cyfrifyddu blynyddol eu paratoi a'u cyflwyno i'r Cyngor yn unol â'r Rheoliadau. |
| A8 | Dylai'r Cyngor roi trefniadau ar waith i gael adroddiadau am wybodaeth ariannol fanwl yn nodi sefyllfa ariannol y Cyngor yn rheolaidd. |
| A9 | Rhaid i aelodau sicrhau na fyddant yn llofnodi sieciau nad ydynt wedi'u cwblhau'n llawn ac wedi'u hategu gan dderbynebau neu anfonebau priodol. |
| A10 | Rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith ar gyfer gwaith archwilio mewnol er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau. |
| A11 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol i gadw cofnodion priodol o'i drafodion. |


## Y camau nesaf

**73.** Mae Adran 25 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol yn awr i'r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor o fewn mis i ddyddiad yr adroddiad hwn. Yn y cyfarfod, bydd yn rhaid i'r Cyngor benderfynu:

- pa un a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau gweithredu;
- pa un a ddylid derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad;
- pa gamau (os o gwbl) i'w cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

## Cydnabyddiaeth

**74.** Hoffwn gofnodi fy niolch i'r Cynghorydd Gillian Wakeman am y cymorth sylweddol a roddodd i mi a'm tîm o ran fy archwiliad o gyfrifon y Cyngor.



Anthony Barrett

Archwilydd Penodedig

8 Rhagfyr 2011

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk